

Eluned Morgan AC
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

7 Mai 2019

Annwyl Eluned

Y Bil Masnach - cydsyniad deddfwriaethol

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Ebrill 2019, a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 29 Ebrill 2019.

Rydym yn ddiolchgar am eich dadansoddiad o'r gwelliannau a wnaed yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Yn arbennig, mae eich asesiad o'r ffordd y mae'r gwelliannau yn rhyngweithio â'r cydsyniad deddfwriaethol a roddir gan y Cynulliad yn arbennig o ddefnyddiol.

Mewn perthynas â gwelliant 14, rydych chi'n nodi:

"Un o effeithiau gwelliant 14 yw ehangu pwerau datganoledig dan y Bil ac felly nid wyf yn meddwl bod y Cynulliad wedi cydsynio i'r newid hwn wrth iddo roi ei gydsyniad gwreiddiol. Fel arfer, byddwn yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer gwelliant o'r math hwn ond yn realistig nid wyf yn rhagweld y byddai amser i gydymffurfio â gweithdrefnau'r Memorandwm. Nid wyf, felly, yn bwriadu gwneud hynny."

Rydym yn cytuno â'ch asesiad o'r angen i geisio cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad yn yr amgylchiadau hyn.

Mae ein barn ni yn wahanol i'ch un chi gan ein bod yn credu y dylid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol fel mater o frys.

Gan nad oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer trafod gwelliannau'r Arglwyddi yn Nhŷ'r Cyffredin, efallai y bydd modd i'r Cynulliad drafod cynnig cydsyniad deddfwriaethol cysylltiedig cyn i'r broses graffu Seneddol ddod i ben.




Hyd yn oed mewn amgylchiadau lle nad yw amserlenni Senedd y DU yn caniatáu i gydymffurfio'n llawn â gweithdrefnau cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad, credwn y dylai Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod ac, os yn bosibl, ei drafod.

Nodwn mai dyma'r ail achlysur y mae deddfwriaeth San Steffan yn ymwneud â Brexit yn mynd rhagddi gyda'r angen am gydsyniad deddfwriaethol yn codi yn ystod camau olaf y broses deddfwriaethol.

Rydym wedi anfon copi o'r llythyr hwnnw at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style with a large initial 'D'.

David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

